



St David's College Update



Update Episode 4

You may, or may not be aware that this update is the text version of a new St David's Update video that goes out to students. This new way of communicating key messages has been a big success so far, and we're looking forward to seeing it develop across the year! Watch Ameera and Kenneth, [here](#).

College of Sanctuary

The College has officially now been recognised as a **College of Sanctuary**. This accreditation shows that St David's is a place that welcomes and will provide sanctuary for refugees in need.

It also highlights how the college respects people from all backgrounds, and how it places the highest value on diversity and is committed to equality.

You may remember at the end of last year, where we collectively made a circle on the astro, and were recorded from above – you can read more about why we did that, [here](#).

Summer 2024 Certificates

The exams office has contacted all previous schools to find out when you can collect your Summer 2024 certificates. There is a poster outside of M09 with the dates from those who have responded.

Having your certificates is important going forward, future employers and universities may need to see them, so have a look when you can collect them, and take a photo of them too as a backup!

And in Sports...

The girls showed their strength in a 5-a-side game against the Cardiff City Foundation – tough opponents – beating them 17 – 5. All the girls got on the score sheet, and it's great to see the girls' team developing as the season goes on.

Still undefeated! The Boys' football team has made it four out of four with a statement victory against Gower College. The boys won 8- 1 away in Swansea, with Andrei getting a hat trick, and Cam bagging 2 more goals to make it 6 in 2 games.

Giving Week!

The last week of this term is a big week in the St David's Calendar, and it is when we turn our focus onto how we can give to others before Christmas. Every year, the college supports the Crisis at Christmas Campaign, who provide warmth, companionship and vital services for those experiencing homelessness during Christmas.

We will also be supporting the Huggard Centre this year, who support people in Cardiff who are sleeping rough.

Christmas can be a difficult time for some, so before we finish the term, let's together try and make a difference for those who are struggling through this festive period.

On that note... Well done to **Simon and Peter Bedwell** who had the hall hyped last Friday. Their performance in the hall was to raise awareness for the Crisis at Christmas campaign, so if you enjoyed it – donate a couple of quid.

#BeTheChange campaign

You may have seen some news stories recently about St David's support for the #BeTheChange campaign.

This campaign aims to raise awareness and understanding of people living with hidden disabilities and hidden illnesses. Well done to the students and Mrs Prescott who've been driving this forward. The College has now adopted the new accessible toilet signage – which shows that not all people needing to use an accessible toilet have a visible illness or disability.

Harvard University Talk

There's an exciting opportunity coming up on the 2nd December – next Monday! Harvard University will be visiting the college to tell us about applying to American Universities. They'll be doing a talk in T11 (The Tom Channon Lecture Room) after college, and will be covering things like the difference in UK vs US education, how to research US colleges and find what suits you, as well as the application process and financial aid.

Announcements

Food Pantry A reminder that we have a food pantry available to learners who may need additional support with food and toiletries. Please go to the room opposite the Launchpad, where you can discretely collect a range of items to take home with you.

Posters around College Please remember that Posters around college should be bilingual, in both Welsh and English. Alternatively, you can always email Dr Jones or Mr Phillips and have your poster on Linc.

Important Dates

| | |
|---------------------------|------------------------------------|
| 6 th December | Christmas Market |
| 12 th December | Christmas Jumper Day |
| 12 th December | College Advent Service |
| 19 th December | Pensioner's Christmas Party |



Diweddariad Coleg Dewi Sant



Diweddariad Pennod 4

Efallai eich bod, neu efallai nad ydych yn ymwybodol, mai'r diweddariad hwn yw'r fersiwn testun o fideo Diweddariad Coleg Dewi Sant newydd sy'n mynd allan i fyfyrwyr. Mae'r ffordd newydd hon o gyfleu negeseuon allweddol wedi bod yn llwyddiant mawr hyd yn hyn, ac rydym yn edrych ymlaen at ei weld yn datblygu dros y flwyddyn! Gwylwch Ameera a Kenneth [yma](#).

Coleg Noddfa

Mae'r Coleg bellach wedi'i gydnabod yn swyddogol fel **Coleg Noddfa**. Mae'r achrediad hwn yn dangos bod Coleg Dewi Sant yn lle sy'n croesawu ac a fydd yn darparu noddfa i ffoaduriaid mewn angen.

Mae hefyd yn amlygu sut mae'r coleg yn parchu pobl o bob cefndir, a sut mae'n rhoi'r gwerth uchaf ar amrywiaeth ac wedi ymrwymo i gydraddoldeb.

Efallai eich bod yn cofio ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, lle gwnaethom gylch gyda'n gilydd ar yr astro, a chael ein recordio oddi uchod – gallwch ddarllen rhagor am pam y gwnaethom hynny [yma](#).

Tystysgrifau Haf 2024

Mae'r swyddfa arholiadau wedi cysylltu â phob ysgol flaenorol i gael gwybod pryd y gallwch gasglu eich tystysgrifau Haf 2024. Mae poster y tu allan i M09 gyda'r dyddiadau gan y rhai sydd wedi ymateb.

Mae cael eich tystysgrifau yn bwysig wrth symud ymlaen. Efallai y bydd angen i gyflogwyr a phrifysgolion eu gweld yn y dyfodol, felly dylech wirio pryd y gallwch eu casglu, a thynnwch lun ohonynt hefyd fel copi wrth gefn!

Ac mewn Chwaraeon...

Dangosodd y merched eu cryfder mewn gêm 5-bob-ochr yn erbyn Sefydliad Dinas Caerdydd – gwrthwynebwyr caled – gan eu curo 17 – 5. Sgoriodd bob un o'r merched ac mae'n wych gweld tîm y merched yn datblygu wrth i'r tymor fynd yn ei flaen.

Dal heb eu trechu! Mae tîm pêl-droed y Bechgyn wedi ennill pedwar allan o bedwar gyda buddugoliaeth bendant yn erbyn Coleg Gŵyr. Enillodd y bechgyn 8-1 oddi cartref yn Abertawe, gydag Andrei yn sgorio hat-tric a Cam yn bagio 2 gôl arall i'w gwneud hi'n 6 mewn 2 gêm.

Wythnos Rhoi!

Mae wythnos olaf y tymor hwn yn wythnos fawr yng Nghalendr Coleg Dewi Sant, a dyma pryd y byddwn yn troi ein ffocws ar sut y gallwn roi i eraill cyn y Nadolig. Bob blwyddyn, mae'r coleg yn cefnogi Ymgyrch Argyfwng y Nadolig, sy'n darparu cynhesrwydd, cwmnïaeth a gwasanaethau hanfodol i'r rhai sy'n profi digartrefedd yn ystod y Nadolig.

Byddwn hefyd yn cefnogi Canolfan Huggard eleni, sy'n cefnogi pobl yng Nghaerdydd sy'n ddigartref.

Mae'r Nadolig yn gallu bod yn gyfnod anodd i rai, felly cyn i ni orffen y tymor, gadewch i ni geisio gwneud gwahaniaeth gyda'n gilydd i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd yn ystod cyfnod yr ŵyl.

Ar y nodyn hwnnw... Da iawn i **Simon a Peter Bedwell** ar ôl iddynt gyffroi'r neuadd ddydd Gwener diwethaf. Nod eu perfformiad yn y neuadd oedd codi ymwybyddiaeth am yr ymgyrch Argyfwng y Nadolig, felly os wnaethoch chi fwynhau – cyfrannwch gwpl o bunnoedd.

Ymgyrch #BeTheChange

Efallai eich bod wedi gweld rhai straeon newyddion yn ddiweddar am gefnogaeth Coleg Dewi Sant i'r ymgyrch #BeTheChange.

Nod yr ymgyrch hon yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bobl sy'n byw gydag anableddau cudd a salwch cudd. Da iawn i'r myfyrwyr a Mrs Prescott sydd wedi bod yn gyrru hyn ymlaen. Mae'r Coleg bellach wedi mabwysiadu'r arwyddion toiled hygyrch newydd – sy'n dangos nad oes gan bawb sydd angen defnyddio toiled hygyrch salwch neu anabledd gweladwy.

Araith Prifysgol Harvard

Mae cyfle cyffrous ar y gweill ar 2 Rhagfyr – dydd Llun nesaf! Bydd Prifysgol Harvard yn ymweld â'r coleg i esbonio i ni sut i wneud cais i Brifysgolion America. Byddant yn cynnal araith yn T11 (Ystafell Ddarlithio Tom Channon) ar ôl i ddiwrnod y coleg orffen, ac yn ymdrin â phethau fel y gwahaniaeth rhwng addysg yn y DU ac addysg yn UDA, sut i ymchwilio i golegau UDA a dod o hyd i'r hyn sy'n addas i chi, yn ogystal â'r broses ymgeisio a chymorth ariannol.

Cyhoeddiadau

Pantri Bwyd Nodyn i'ch atgoffa bod gennym ni pantri bwyd ar gael i ddysgwyr sydd efallai angen cymorth ychwanegol gyda bwyd ac eitemau ymolchi. Ewch i'r ystafell gyferbyn â'r Launchpad, lle gallwch chi gasglu amrywiaeth o eitemau yn gyfrinachol i fynd adref gyda chi.

Posterï o gwmpas y Coleg Cofiwch y dylai posterï o amgylch y coleg fod yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fel arall, gallwch bob amser anfon e-bost at Dr Jones neu Mr Phillips er mwyn dangos eich poster ar Linc.

Dyddiadau Pwysig

6 Rhagfyr **Marchnad Nadolig**
12 Rhagfyr **Diwrnod Siwmpwr Nadolig**
12 Rhagfyr **Gwasanaeth Adfent y Coleg**

19 Rhagfyr **Parti Nadolig Pensiynwr**